**Grŵp Cynllunio Traws-glwstwr [**Enw Sir**]**

**{**Cymdogaeth/Cymuned}

**Cylch Gorchwyl Drafft**

## Tabl Cynnwys


1. Diben ..... 2
2. Swyddogaeth a nodau ..... 2
3. Aelodaeth ..... 4
4. Atebolrwydd GCTG ..... 5
5. Cyfarfodydd ..... 5
6. Gwneud Penderfyniadau ..... 6
7. Llywodraethu ac adrodd ..... 6
8. Adolygu ..... 6
9. Atodiad 1: Termau a Diffiniadau Allweddol ..... 6
10. Atodiad 2: Egwyddorion Comisiynu ..... 7
11. Atodiad 3: Trefniadau Llywodraethu ..... 8

## 1. Diben

Mae Grŵp Cynllunio Traws-glwstwr (GCTG) ***[Enw Sir]*** wedi'i sefydlu'n is-grŵp o Fwrdd Iechyd ***[Enw]***

Nod y GCTG yw cyflawni egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 (y Ddeddf), Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015), Cymru Iachach a Model Gofal Sylfaenol Cymru, a sicrhau bod mwy a mwy o aliniad ac ymgysylltiad rhwng y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a threfniadau Clwstwr gan ddod â gwasanaethau at ei gilydd ar lefel leol

Felly , bydd yn ofynnol iddo ddatblygu a chryfhau'r berthynas â Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol XXX fel bod hyn yn galluogi ac yn hyrwyddo ymateb integreiddiol i anghenion y boblogaeth leol

Bydd y GCTG yn

- Arwain y gwaith o ddatblygu cynllun integredig sy'n mynd i'r afael ag anghenion iechyd, gofal a lles poblogaeth gyfan [***Sir***]
- Cefnogi'r gwaith o weithredu ar lefel leol yr agenda partneriaeth ar y cyd, gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i)
    - Gynlluniau clwstwr
    - Cynllun Integredig ***[Sir]***
    - Blaenoriaethau a bennir gan y BPRh a Bwrdd Partneriaeth [Sir] (BGC)
    - Gofynion y cynlluniau sefydliadol unigol sy'n cynnwys gweithio mewn partneriaeth.
    - Cynllunio gweithlu integredig i gyflawni amcanion y GCTG

- Dwyn ynghyd uwch arweinwyr o'r GIG, yr Awdurdod Lleol (i gytuno pa adrannau) a phartneriaid allweddol yn y Trydydd Sector.

## 2. Swyddogaeth a nodau

**Arwain Systemau:** Darparu arweinyddiaeth system integredig sy'n galluogi cydweithio rhwng sefydliadau partner ar draws iechyd a gofal cymdeithasol i nodi a diwallu anghenion y boblogaeth leol.

**Cynllunio Integredig:** Darparu asesiad manwl o anghenion a chynlluniau gweithredol sy'n gosod uchelgeisiau cyffredin rhwng partneriaid ar gyfer darparu gwasanaethau integredig, datblygiadau gwasanaethau a chyfleoedd i ddarparu gofal integredig yn y gymuned i boblogaeth [***Sir***].ac sy'n ymateb i'r asesiad anghenion a nodwyd.
Wrth wneud hynny bydd GCTG yn:

- Deall anghenion y boblogaeth gan gynnwys blaenoriaethau allweddol, amrywiadau diangen rhwng gwahanol ganlyniadau iechyd a lles

- Deall asesiad proffesiynol o fylchau mewn llwybrau gwasanaeth, rhwystrau a chyfleoedd a fynegir gan glystyrau/ mentrau cydweithredol proffesiynol / Awdurdodau Lleol

- Datblygu Cynllun [***Sir***] Integredig wedi'i alinio sy'n adeiladu ar gynlluniau Clwstwr [***enwau Clystyrau***], a'r cynlluniau a blaenoriaethau sefydliadol unigol, gan gefnogi aliniad rhwng sefydliadau. Mae'r cynllun system gyfan hwn yn seiliedig ar y model cynllunio ar gyfer y Rhanbarth, a fydd wedi nodi'r gwasanaethau hynny y mae angen eu cynllunio ar lefel y tu hwnt i ôl troed y GCTG

- Datblygu Cynllun Gweithlu Integredig sy'n adlewyrchu cynaliadwyedd lleol gwasanaethau ac uchelgeisiau'r Sir

- Asesu lefel aeddfedrwydd integreiddio ymhlith sefydliadau iechyd, gofal cymdeithasol a phartneriaid.

**Comisiynu** Gallu comisiynu cyfres o wasanaethau gan sefydliadau a all ddarparu gwasanaethau arloesol yn seiliedig ar ganlyniadau ar gyfer y boblogaeth yn seiliedig ar angen ac yn unol â Chynllun Integredig [***Sir***]. Wrth wneud hynny, cadw at yr Egwyddorion Comisiynu a amlinellir yn Atodiad 2 a cheisio cyfleoedd i alinio trefniadau comisiynu rhwng sefydliadau.

**Cytundebau Partneriaeth:** Rheoli a monitro holl gytundebau Adran 33/Rhan 9 [Sir] – ceisio sicrwydd gan Fyrddau Rheoli ar y Cyd ynghylch cyflawni'r canlyniadau disgwyliedig. Archwilio a manteisio ar gyfleoedd i ymgysylltu ag asiantaethau iechyd, gofal cymdeithasol ac asiantaethau partner eraill wrth weithio mewn partneriaeth a chynllunio a darparu rhaglenni gwaith cydweithredol.

**Galluogi Cyflawni:** Galluogi darparu gwasanaethau i wireddu'r amcanion a amlinellir yng Nghynllun Integredig [***Sir***]. Bydd hyn yn cynnwys datblygu fframwaith ansawdd a pherfformiad integredig ar gyfer perfformiad gwasanaethau lleol, a chytuno ar gynlluniau gweithredu'n ymwneud â gwella perfformiad

**Diwylliant Gwella**: Creu diwylliant sy'n cymell pob partner ar lefel Sirol a Chydweithredol i ddefnyddio dull arloesol a gwybodaeth i ysgogi gwelliannau parhaus yn y ddarpariaeth gwasanaethau integredig. Tynnu sylw at feysydd lle mae angen cymorth ychwanegol i gyflawni'r agenda y cytunwyd arni, gan gynnwys ariannol, y gweithlu a lle mae angen ymyrraeth weithredol neu gan aelodau i sicrhau newid.

**Ymgysylltu Parhaus**: Datblygu, gweithredu a monitro cynllun ar gyfer dull cyson wedi'i dargedu o ymgysylltu â'r cyhoedd, defnyddwyr a gofalwyr a defnyddio dull cydgynhyrchiol o lunio a llywio trefniadau cynllunio a chomisiynu.

**Adnoddau Cynaliadwy:** Cymeradwyo a monitro'r defnydd o gyllidebau dirprwyedig penodol (fel y'u diffinnir yn Atodiad XXX). Cydweithio i gefnogi'r sefyllfa ariannol gynaliadwy gyfunol ar gyfer darparwyr gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn (Sir xxxx) er mwyn cyflawni ar gyfer y boblogaeth yn effeithiol a gweithredu Cynllun Integredig [***Sir***].

**Rheoli Risg:** Nodi, monitro a cheisio sicrwydd bod camau ar waith i liniaru risgiau i weithio mewn partneriaeth a chyflawni'r blaenoriaethau a amlinellir yng Nghynllun Integredig [***Sir***].

## 3. Aelodaeth

Bydd aelodaeth y GCTG fel a ganlyn

| Sefydliad | Rôl | Cynrychiolydd Wedi'i Enwi |
|---|---|---|
| **I'w gadarnhau** | **Noddwr Gweithredol** | |
| Awdurdod Lleol | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol | |
| Bwrdd Iechyd | Cyfarwyddwr Sir / Ardal | |
| | Cyfarwyddwr Cynllunio | |
| | Cyfarwyddwr Gofal Sylfaenol a Chymunedol | |
| Clystyrau [Sir] | Arweinwyr Clwstwr | |
| Iechyd Cyhoeddus Cymru | Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd | |
| BI / ALl | Uwch Nyrs Gymunedol | |
| | Uwch Arweinydd Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd | |
| | Arweinwyr Timau Integredig | |
| Trydydd Sector | Prif Swyddog CGS | |
| Cyngor Iechyd Cymuned | Cynrychiolydd CIC | |
| Sefydliad Partneriaeth BPRh | Pennaeth Partneriaethau neu gyfateb | |

Yn ogystal, bydd rhanddeiliaid ehangach yn bresennol mewn cyfarfodydd:

| Sefydliad | Rôl | Cynrychiolydd Wedi'i Enwi |
|---|---|---|
| **Yn bresennol** | | |
| Awdurdod Lleol | Pennaeth Comisiynu Strategol ar y Cyd<br>Pennaeth Gofal Oedolion<br>Pennaeth Gwasanaethau Plant<br>Uwch Reolwr Comisiynu Strategol<br>Cynrychiolydd Tai<br>Cynrychiolydd Addysg | |
| Bwrdd Iechyd | Rheolwr Cyffredinol – YCD<br>Rheolwr Cyffredinol – Cymuned<br>Iechyd Meddwl / Anableddau Dysgu<br>Gwasanaethau Plant<br>Pennaeth Gofal Sylfaenol | |

Bydd aelodaeth y GCTG, y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd yn cael eu hadolygu'n flynyddol, disgwylir y bydd y Gadeiryddiaeth yn cylchdroi bob dwy flynedd.

Rhaid i bob aelod gadarnhau eu parodrwydd i barhau i gymryd rhan mewn gweithgarwch GCTG bob blwyddyn. Mae'n ddymunol iawn bod parhad aelodaeth yn cael ei gyflawni er mwyn sicrhau y gellir archwilio materion yn fanwl lle bo angen. Am y rheswm hwn, mae'n ofynnol i bob aelod enwebu eilydd i fod yn bresennol yn eu habsenoldeb.

## 4. Atebolrwydd GCTG

Mae cwmpas atebolrwydd y GCTG yn cynnwys arweinyddiaeth effeithiol dros holl ddatblygiadau gofal cymdeithasol ac iechyd oedolion a phlant o fewn cyllidebau craidd a chyllid grant sefydliadau partner unigol. Bydd y Bwrdd yn ceisio sicrwydd bod yr holl gytundebau/fframweithiau cyfreithiol yn cael eu rheoli'n effeithiol gan sicrhau bod llywodraethu cadarn ar waith ac y glynir ato.

Bydd pob aelod unigol yn gweithredu’n unol â'r awdurdod dirprwyedig sydd ganddynt ar ran ei sefydliad.

Efallai y bydd yn rhaid i'r GCTG ystyried gwybodaeth gyfrinachol ar faterion yn ymwneud â chomisiynu, caffael neu berfformiad ar adegau. Yn unigol, mae'n ofynnol i Aelodau ddatgan gwrthdaro buddiannau hysbys cyn dechrau cyfarfodydd. Bydd angen i Aelodau sicrhau eu bod yn datgan ac yn rheoli unrhyw wrthdaro buddiannau yn unol â chanllawiau ategol.

Drwy arwain a goruchwylio ffrydiau gwaith allweddol, bydd aelodau'r GCTG yn:

- Nodi meysydd blaenoriaeth y cytunwyd arnynt ar gyfer gwella sy'n gofyn am gydweithio cryfach er mwyn sicrhau gwell canlyniadau o fewn yr adnoddau sydd ar gael;
- Datblygu a chyflwyno cynllun comisiynu lleol;
- Hyrwyddo a "byw" diwylliant sy'n mynd ati i ddileu rhwystrau a seilos o fewn sefydliadau i sicrhau gwasanaethau di-dor i'r boblogaeth leol;
- Ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol mewn cymunedau, gan gyfeirio'n benodol at grwpiau lleiafrifol ac ymylol.
- Cefnogi gweithio ar y cyd a lle bo angen, cael awdurdodiad priodol o fewn eu sefydliadau eu hunain ar gyfer y cyfryw weithio.
- Sicrhau bod swyddogion llywodraeth leol, y GIG a'r trydydd sector yn gallu gweithio ar y cyd o fewn trefniadau llywodraethu statudol a sefydliadol sy'n darparu fframwaith o atebolrwydd clir:
- Goruchwylio'r ffordd y defnyddir adnoddau, gan gynnwys grantiau perthnasol gan Lywodraeth Cymru;
- Datblygu ei allu a'i gapasiti i ddarparu llywodraethu effeithiol.
- Cefnogi gweithio ar y cyd a lle bo angen, cael awdurdodiad priodol o fewn eu sefydliadau eu hunain ar gyfer y cyfryw weithio.

## 5. Cyfarfodydd

Bydd cyfarfodydd y Bwrdd yn cael eu cynnal bob 2 fis. Cynhelir cyfarfodydd fel arfer ar ***[diwrnod]*** y mis i gefnogi ymgysylltu â rhanddeiliaid a phartneriaeth llawn. Bydd penderfyniadau i ohirio unrhyw gyfarfodydd yn cael eu gwneud ar y cyd gan y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd.

Efallai y bydd angen cyfarfodydd ychwanegol o bryd i'w gilydd er mwyn ymdrin ag unrhyw faterion brys yn brydlon. Gall y GCTG hefyd sefydlu is-grwpiau a fydd yn gyfrifol am ddatblygu prosiectau penodol.

Bydd yr agenda'n cael ei phennu gan y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd ac mae angen cyflwyno unrhyw eitemau ar yr agenda bythefnos cyn y cyfarfod.

Bydd yr agenda a'r papurau yn cael eu dosbarthu erbyn y dydd Gwener cyn y cyfarfod.

Darperir cymorth ysgrifenyddol ar gyfer y cyfarfodydd gan ***[insert].*** Bydd cofnodion a chamau gweithredu yn cael eu gwneud ar gyfer pob cyfarfod fel un cofnod cyfunol o'r cyfarfod. Bydd y cofnodion a'r camau gweithredu cyfunol drafft yn cael eu paratoi a'u dosbarthu i aelodau GCTG yn amserol yn dilyn pob cyfarfod. Caiff y drafft ei gymeradwyo'n ffurfiol yn y cyfarfod nesaf ac yna bydd ar gael i'r aelodau.

## 6. Gwneud Penderfyniadau

Cworwm cyfarfod fydd XXX o aelodau. Ni fydd mynychwyr ychwanegol yn cyfrannu at y cworwm.

Pan fo angen penderfyniad, dylai'r grŵp geisio dod i gonsensws drwy drafodaeth. Fodd bynnag, os oes angen, gall y grŵp ddod i gytundeb drwy bleidleisio. Bydd gan bob sefydliad craidd un bleidlais gyfartal. Os yw'r bleidlais yn gyfartal, yna gan y cadeirydd y bydd y bleidlais benderfynu.

Ni fydd gan fynychwyr ychwanegol hawl i bleidleisio. Bydd y cadeirydd yn gyfrifol am sicrhau bod unrhyw bleidleisio'n cael ei wneud yn briodol.

## 7. Llywodraethu ac adrodd

Bydd y PCPG yn adrodd i [***is-grŵp o'r Bwrdd Iechyd i'w gadarnhau'n lleol***]. Bydd cofnodion cyfarfodydd y Bwrdd yn cael eu rhannu â'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol drwy Grŵp Gweithredol Integredig y BPRh, neu ddewis arall fel y cytunwyd yn lleol.

Bydd y GCTG yn cysylltu â'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) mewn perthynas â'r Cynllun Llesiant ar gyfer [***Sir***] i sicrhau aliniad cynllunio a chyflawni.

Bydd y sefydliadau partner perthnasol yn adrodd yn fewnol drwy strwythurau llywodraethu priodol.

## 8. Adolygu

Bydd swyddogaeth, diben, aelodaeth a llywodraethiant GCTG yn cael eu hadolygu'n flynyddol a bydd y Cylch Gorchwyl yn cael ei newid yn unol â hynny.

Efallai y bydd angen yn codi i gynnal adolygiad ar adegau eraill yn unol â gweithredu diwygiadau polisi cenedlaethol iechyd a gofal cymdeithasol a chanllawiau dilynol.

## 9. Atodiad 1: Termau a Diffiniadau Allweddol

[Model cynllunio system gyfan a diffiniadau allweddol i'w hychwanegu yn ôl yr angen]

## 10. Atodiad 2: Egwyddorion Comisiynu

1. Deall anghenion defnyddwyr a chymunedau drwy ymgymryd ag ymgysylltu effeithiol a chynhwysfawr;

2. Ymgynghori â sefydliadau darparu posibl a phresennol, gan gynnwys y rhai o'r trydydd sector, ac arbenigwyr lleol, ymhell cyn comisiynu gwasanaethau newydd, gan weithio gyda nhw i bennu blaenoriaethau'r gwasanaeth hwnnw o ran canlyniadau;

3. Rhoi canlyniadau i ddefnyddwyr wrth wraidd y broses gynllunio strategol;

4. Mapio'r ystod lawnaf bosibl o ddarparwyr gyda golwg ar ddeall y cyfraniad y gallent ei wneud at gyflawni'r canlyniadau hynny;

5. Buddsoddi yn natblygiad y sylfaen ddarparwyr,

6. Sicrhau bod prosesau contractio yn dryloyw ac yn deg, a hwyluso cyfranogiad yr ystod ehangaf o gyflenwyr

7. Sicrhau contractau hirdymor a rhannu risg, lle bynnag y bo'n briodol, fel ffyrdd o sicrhau effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd; a

8. Gofyn am adborth gan ddefnyddwyr gwasanaethau, cymunedau a darparwyr er mwyn adolygu effeithiolrwydd y broses gomisiynu wrth ddiwallu anghenion lleol.

## 11. Atodiad 3: Trefniadau Llywodraethu

[Organogram i'w fewnosod yn ôl y gofyn]